# Adroddiad Arolygu

**Cartref Preswyl Tŷ Cwm Ogwr ar gyfer Pobl Hŷn**

**Tŷ Cwm Ogwr**
**Dan-yr-heol**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF32 7HY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

24/07/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Preswyl Tŷ Cwm Ogwr ar gyfer Pobl Hŷn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 24.1.2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl wedi setlo ac yn gyfforddus yn byw yn Nhŷ Cwm Ogwr. Mae awyrgylch hamddenol yn y cartref yn helpu'r bobl ac ymwelwyr i deimlo'n gyfforddus. Mae'r cynlluniau personol yn rhoi gwybodaeth am y bobl a rhai anghenion gofal. Fodd bynnag, rhaid eu datblygu ymhellach i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Caiff y bobl yn cefnogi i wneud dewisiadau bob dydd o ran sut maent yn byw eu bywyd, ac i wneud y pethau sy'n ystyrlon iddynt. Mae'r tîm o staff ymroddedig a phrofiadol am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r bobl, ac mae'r bobl maent yn eu cefnogi yn ganolog i'r gwasanaeth. Mae'r staff gofal yn trin y bobl ag urddas ac yn cefnogi pob person er mwyn sicrhau bod ganddo lais. Mae'r gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr newydd, ac maent yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau. Mae'r arferion recriwtio yn gadarn ac mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio un i un yn rheolaidd. Mae'r staff gofal yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu pobl. Mae amrywiaeth o bolisïau sy'n cefnogi arferion da ar gael. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref preswyl yn unol â'r rheoliadau ac yn goruchwylio'r gwasanaeth yn briodol.

## Llesiant

Mae'r gwasanaeth yn gwrando ar ddymuniadau'r bobl ac yn eu helpu i wneud penderfyniadau Mae'r bobl yn gwybod sut i leisio eu barn ac yn nodi bod y staff yn gwrando arnynt. Mae cyfarfodydd preswylwyr yn galluogi'r bobl i roi adborth ar fwydlenni, gweithgareddau a'r gofal a ddarperir. Mae'r unigolion hynny na all wneud penderfyniadau yn cael cymorth gan weithwyr proffesiynol, eiriolwyr neu berthnasau. Mae'r bobl yn nodi y gallant benderfynu ble i dreulio eu diwrnod, naill ai yn eu hystafelloedd neu yn un o'r nifer o ardaloedd cymunol sydd ar gael. Mae rhaglen newydd o weithgareddau ar waith ac mae'r bobl yn mwynhau dewis amrywiol o brydau bwyd a byrbrydau. Caiff ystafelloedd gwely eu personoli er mwyn adlewyrchu chwaeth bersonol. Mae'r bobl yn dweud wrthym eu bod yn rhan o'r broses adolygu ac y gofynnir iddynt yn rheolaidd a ydynt yn fodlon ar y gofal y maent yn ei gael. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref gofal bob tri mis er mwyn casglu barn ar y gwasanaeth a ddarperir.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu rhag niwed ac esgeulustod. Mae'r staff gofal wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac mae'r rhai rydym yn siarad â nhw yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os bydd ganddynt unrhyw bryderon ynghylch y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd fel rhan o raglen dreigl. Mae asesiadau risg ar waith i leihau risgiau i'r bobl a'r staff gofal. Cynhelir y broses recriwtio gan yr adran adnoddau dynol, gan sicrhau bod y gweithwyr gofal sy'n cael eu recriwtio yn ffit ac yn addas i weithio yn y sector gofal.

Mae strwythur rheoli newydd ar gyfer y gwasanaeth. Cawsom adborth cadarnhaol gan y staff y gwnaethom siarad â nhw, a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi gan y rheolwr newydd. Mae systemau effeithiol ar waith ar gyfer monitro ac archwilio safonau cymorth a'r amgylchedd. Mae datganiad o ddiben ar gael, sef dogfen sy'n nodi gwybodaeth am y gwasanaeth a ddarperir.

Ar y cyfan, mae'r gwasanaeth yn cefnogi'r bobl i fod mor iach â phosibl. Gwelsom dystiolaeth o gysylltiad rheolaidd â meddygon teulu a nyrsys cymunedol, yn ogystal ag atgyfeiriadau at ymarferwyr arbenigol yn ôl yr angen. Gwneir cais am Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid pan ystyrir bod eu hangen. Caiff meddyginiaeth ei storio’n ddiogel a gwelsom feddyginiaeth yn cael ei rhoi a'i chofnodi'n briodol. Cwblheir archwiliadau o feddyginiaethau yn rheolaidd.  Mae angen gwella cynlluniau personol er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn fanwl, ei bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn a'i bod yn cael ei chwblhau'n gyson.

## Gofal a Chymorth

Mae angen i gynlluniau personol fod yn fwy manwl er mwyn sicrhau bod anghenion y bobl yn cael eu nodi a'u deall. Cwblheir asesiadau cyn derbyn er mwyn sicrhau y gall anghenion y bobl gael eu diwallu yn Nhŷ Cwm Ogwr. Nid oes digon o fanylion na gwybodaeth allweddol mewn rhai cynlluniau personol ac nid ydynt yn adlewyrchu'r gofal na'r cymorth sy'n cael eu darparu. Mae'n amlwg bod y staff gofal yn ymwybodol iawn o hoff bethau, dewisiadau ac anghenion gofal y bobl ond nid yw hyn yn cael ei ddogfennu fel sy'n ofynnol. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Er eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, mae angen i'r darparwr ddangos tystiolaeth glir ei fod yn ymgynghori â'r bobl i weld a yw eu cynlluniau yn addas o hyd. Mae'r cofnodion yn dangos bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol perthnasol yn cael eu cynnwys wrth ofalu am y bobl. Mae cofnodion dyddiol yn dangos bod y bobl yn cael gofal priodol ond gallent fod yn fwy manwl er mwyn cynnwys llesiant emosiynol. Mae clychau galw ar gael i'r bobl er mwyn gallu rhoi gwybod i'r staff pan fydd angen cymorth arnynt.

Mae'r bobl yn profi cynhesrwydd a charedigrwydd gwirioneddol gan bob aelod o'r staff. Gwelsom y staff gofal yn trin y bobl fel unigolion mewn ffordd amyneddgar. Mae'r staff gofal yn sylwgar iawn ac yn ymateb i anghenion gwahanol y bobl â lefelau priodol o anogaeth a chymorth. Mae'r bobl yn ymddangos yn gyfforddus ac yn gartrefol ym mhresenoldeb y staff. Mae'r staff yn siarad mewn modd cyfeillgar, gofalgar a pharchus ac mae'r bobl yn ymateb yn gadarnhaol. Dywedodd perthynas wrthym, "*I'm absolutely happy with the care*" ac "*us as a family are happy that X is being so well looked after*". Dywedodd pobl sy'n byw yn y cartref wrthym, "*They look after me well*", "*I can recommend this place*" and "*they are all very friendly and pleasant*". Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cadarnhaol yn ystod yr arolygiad a gwelsom fod y staff gofal yn cefnogi'r bobl mewn modd urddasol.

Gall y staff nodi lle y gallai'r bobl fod yn wynebu risg o niwed neu gam-drin, ac mae gweithdrefnau diogelu priodol ar waith. Gwelsom fod risgiau i iechyd a diogelwch y bobl yn cael eu nodi a bod asesiadau risg yn cael eu cwblhau. Mae'r aelodau o'r staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau personol o ran cadw'r bobl yn ddiogel a gwnaethant ddweud wrthym y byddent yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon. Maent yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer chwythu'r chwiban a gwnaethant ddweud eu bod yn teimlo'n hyderus y gallent godi mater gyda'r rheolwr pe bai angen gwneud hynny. Pan ofynnwyd iddo a oedd yn teimlo'n ddiogel, dywedodd un unigolyn wrthym, "*Yes I do, definitely*".

Mae'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn cael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd. Mae'r gwasanaeth yn cwblhau gwiriadau, sy'n sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar dymheredd cywir ac felly'n parhau i fod yn effeithiol. Mae archwiliadau meddyginiaeth yn sicrhau bod y staff yn cynnal arferion da ac yn nodi unrhyw feysydd i'w gwella. Nid oedd unrhyw fylchau na gwallau yn y sampl o gofnodion meddyginiaeth a welsom; caiff

meddyginiaeth ei storio'n ddiogel mewn cyfleuster dan glo a chaiff gwiriadau o gyffuriau a reolir a stoc eu rheoli'n effeithiol. Caiff meddyginiaeth ‘yn ôl yr angen’ (PRN) ei rhoi a'i chofnodi'n briodol gyda'r rhesymau dros roi'r feddyginiaeth yn cael eu cofnodi'n glir.

## Yr Amgylchedd

Caiff y bobl eu diogelu rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad gan fod yn rhaid i bob ymwelydd ganu cloch y drws ffrynt er mwyn dod i mewn, yn ogystal â chofnodi ei ymweliad yn y llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael. Caiff cofnodion gofal personol y bobl eu storio'n ddiogel a dim ond y gweithwyr gofal a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd ag awdurdod i'w gweld a gaiff weld y cofnodion hynny.

Mae'r llety o safon dda, sy'n ddymunol ac yn darparu amgylchedd pleserus i bobl fyw ynddo. Mae dwy uned yn y cartref ac mae un yn benodol ar gyfer y bobl sy'n byw gyda diagnosis o ddementia. Wrth gerdded o amgylch y cartref, gwelsom fod ystafelloedd gwely'r bobl wedi'u personoli ag eitemau o ddewis personol. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus iawn â'u hystafelloedd. Dywedodd un unigolyn wrthym, “*My room is nice, it's spotless*”. Gwelsom hefyd fod arwyddion yn cael eu darparu yn Gymraeg a Saesneg. Mae ardaloedd cymunol yn cael eu defnyddio'n helaeth yn y ddwy uned a gwelsom bobl yn rhyngweithio'n hapus â'i gilydd. Mae sawl ystafell ymolchi a chawod gymunol yn y cartref hefyd ac mae cyfarpar arbenigol ynddynt ar gyfer y rheini sydd ei angen.

Mae'r cartref yn darparu amgylchedd glân sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac mae digon o gyfarpar i ddiwallu anghenion y bobl. Mae systemau ar waith i archwilio a gwasanaethu'r amgylchedd a'r cyfarpar yn rheolaidd. Gwelsom fod cyfarpar addas ar gael i'r bobl er mwyn helpu i'w cadw'n ddiogel ac i atal anafiadau o ganlyniad i gwympo. Mae pob ardal yn edrych yn lân ac mae gweithdrefnau i atal heintiau rhag lledaenu yn cael eu dilyn. Mae deunyddiau glanhau ar gael ac yn cael eu rheoli'n ddiogel, gyda'r ardaloedd storio yn cael eu cadw dan glo. Mae'r cyfleusterau golchi dillad yn addas i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn cael cymorth gan aelodau o staff wedi'u recriwtio'n ddiogel, sy'n cael eu cefnogi'n dda ac sydd wedi cael hyfforddiant addas i gyflawni eu rolau. Mae'r adran adnoddau yn cadarnhau bod y broses recriwtio staff yn bodloni'r holl ofynion rheoleiddiol. Mae'r staff presennol wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu, ac mae staff newydd eu penodi yn cael cymorth i wneud hyn. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant digonol. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi cael digon o hyfforddiant i gyflawni eu rôl. Ar y cyfan, roedd y matrics hyfforddiant a welsom yn dangos bod y gwasanaeth yn darparu amrywiaeth o hyfforddiant craidd ac arbenigol er mwyn sicrhau bod arferion gofal cadarnhaol yn cael eu dilyn. Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol a chynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, a bod gwaith tîm yn y cartref yn dda. Gwnaethant ddweud wrthym hefyd eu bod yn gallu siarad â'r rheolwr newydd, sy'n hawdd mynd ato. Dywedodd y staff: "S*he gets things done for the residents*", "*There is a completely different atmosphere, much more relaxed and resident orientated*" a "*She's wonderful, very good at her job*".

Mae prosesau sicrhau ansawdd da ar waith. Mae adroddiadau yn dangos bod yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd er mwyn siarad â'r staff, y bobl a chynrychiolwyr ac mae adroddiadau sicrhau ansawdd a gyhoeddir bob chwe mis yn ystyried safon y gwasanaethau a gynigir. Gwelsom dystiolaeth bod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau, yn cynnig adborth neu'n trafod unrhyw bynciau o bwys. Gwnaethom edrych ar ddetholiad o bolisïau a gweithdrefnau a gweld bod y rhain yn gyfredol ac yn ddigon manwl. Gwnaethom nodi bod atgyfeiriadau diogelu neu feysydd sy'n destun pryder yn cael eu rheoli a'u cofnodi'n brydlon. Mae gan y gwasanaeth dîm sefydlog o staff ac mae nifer o aelodau o'r staff wedi gweithio yn y gwasanaeth ers sawl blwyddyn. Dywedodd y staff wrthym fod rotas yn cael eu rheoli'n briodol a bod lefelau staffio yn ddigonol i'w galluogi i ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r rheolwr newydd yn dangos dealltwriaeth dda o'r gwasanaeth a'i gryfderau presennol ac mae hefyd yn cadarnhau y bydd rhagor o waith yn cael ei wneud er mwy gwella cynlluniau personol a phrosesau cofnodi. Dywedodd yr aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw, "*I love working here*", "*We all help each other*" a "*Brilliant here, I love it*".

Gall y bobl gael gwybodaeth er mwyn eu helpu i ddeall y gofal, y cymorth a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth yn rhoi disgrifiad cywir o'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd mewn perthynas â'r llety sydd ar gael, y broses atgyfeirio a derbyn, y math o ofal a chymorth sydd ar gael a sut mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth Cymraeg.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 36 | Nid yw'r gwasanaeth wedi sicrhau bod y staff gofal wedi derbyn hyfforddiant yn unol â'i ddatganiad o ddiben. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 15 | Mae angen diweddaru cynlluniau personol er mwyn adlewyrchu anghenion gofal a chymorth y bobl a lliniaru risg. | Newydd |
| 58 | Nid oedd cofnodlyfrau tymheredd ar gyfer ardaloedd storio meddyginiaethau ar gael ac nid oedd y rheswm dros roi meddyginiaeth PRN na chanlyniad hynny wedi'u cofnodi. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/09/2023